

## JONES, WILLIAM (bu farw 1679), gweinidog Piwritanaidd

**Enw:** William Jones  
**Dyddiad marw:** 1679  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Piwritanaidd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Richards

Brodor o Feirionnydd, yn ôl pob tebyg. Cafodd ei osod yn 1647 gan Bwyllgor y Gweinidogion Llwm ym mhrif dref Dyffryn Clwyd a dyfarnu iddo ganpant y flwyddyn o gyflog allan o adnoddau'r rheithoraeth; ef hefyd oedd caplan milwyr y Senedd yn y dref; yn 1650 enwyd ef yn un o'r profwyr o dan Ddeddf y Taeniad. Yn y blynyddoedd 1654-6 yr oedd ei fuddion o'r plwyf mewn cryn berygl oherwydd osgo wrthwynebus yr eglwyswr mawr a ffarmiai'r degymau, ond yn 1657 gwelodd yr awdurdodau Piwritanaidd yn dda ychwanegu £40 y flwyddyn at ei gyflog. Nid oedd fawr obaith iddo yn nyddiau 'r Adferiad gael yr arian gwreiddiol na'r ychwanegiad, ond ni chafodd ei droi allan o'i le hyd Awst 1661, a hynny o dan Ddeddf mis Medi 1660, ac nid o dan Ddeddf Unffurfiaeth 1662. Gorfu arno, yn ôl gofynion Deddf y Pum Milltir, ymadael â thref Dinbych, a chafodd noddfa yn y Plas Teg yn Sir y Fflint, cartref teulu [Trevor](#) (yr oedd y tad wedi bod yn gomisiynydd o dan Ddeddf y Taeniad, a'r mab yn brysur iawn yn cryfhau dwylo Siarll II gydag ' Indulgence ' 1672). Dywedir i'r teulu roddi tir i William Jones i fyw arno gwerth £20 y flwyddyn; ac o gwmpas Plas Teg yr ydoedd pan ddaeth trwydded iddo i bregethu yn 1672, dyddiedig 28 Hydref.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach daeth yn un o gynorthwywyr [Thomas Gouge](#); ei waith ef oedd cyfieithu i'r Gymraeg lyfrau crefyddol; fel y digwyddodd, [Gouge](#) ei hun oedd awdur gwreiddiol y ddau a droswyd gan William Jones, y ddau yn ymddangos yn 1676 - *Gair i Bechaduriaid* a *Gair i'r Sainct* (un llyfr) a *Principlau neu Bennau y Grefydd Ghristianogol*.

Ymddengys iddo symud o Blas Teg i Estyn (Hope), lle y bu farw yn Chwefror 1679. ' A conforming minister of Abergeley ' a bregethodd yn ei angladd, a hwnnw hefyd oedd awdur yr ysgrif Ladin a gerfiwyd ar ei garreg fedd (enw'r offeiriad oedd [Dr. David Maurice](#), g r genedigol o Abergele, ond a weithredai fel ficer Llanasa ym mlynnyddoedd olaf William Jones). Yr oedd y 'conforming minister' a William Jones wedi priodi dwy chwaer.

### Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1654, 329; 1655-6, 221, 223

*Lambeth Manuscripts*, 992 (45), 993 (316)

Dyddlyfrau Philip Henry, 93

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, Chas. II, E. B. 38A, 261

Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters who were ejected or silenced after the Restoration in 1660* (London 1713), 713

*The Nonconformist Memorial; being an Account of the Lives ... and Printed Books of the two thousand Ministers ejected ...* (1802-3), 1802-3, iii, 477-8

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 334

*History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iv, 373

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [2367098](#)

Wikidata: [Q20734656](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

